Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

**Adroddiad ar**

**Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**
**Y Ganolfan Ddinesig**
**Stryd y Castell**
**Merthyr Tudful**
**CF47 8AN**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful

<table>
<tr><td>Enw’r darparwr</td><td>Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful</td></tr>
<tr><td>Awdurdodau lleol sy’n ymwneud â’r darparwr a phartneriaid cyflwyno allweddol</td><td>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw’r prif ddarparwr ac mae’n arwain y bartneriaeth. Ei ddau brif bartner cyflwyno yw Y Coleg Merthyr Tudful ac Addysg Oedolion Cymru.</td></tr>
<tr><td>Unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf</td><td>Nid yw’r prif ddarparwyr sy’n cyfrannu at y bartneriaeth wedi newid ers yr arolygiad diwethaf, er bod y bartneriaeth yn disgrifio’i sefyllfa’i hun fel sefyllfa ‘ailosod’ yn dilyn newidiadau i gyfrifoldebau staff a rheolwyr.</td></tr>
<tr><td>Nifer y dysgwyr adeg yr arolygiad</td><td>Adeg yr arolygiad, roedd niferoedd canlynol y dysgwyr wedi eu cofrestru ar y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ym mhob darparwr.
<table>
<tr><th>Partner</th><th>Tachwedd 24</th></tr>
<tr><td>Addysg Oedolion Cymru</td><td>119</td></tr>
<tr><td>Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful</td><td>45</td></tr>
<tr><td>Y Coleg Merthyr Tudful</td><td>73</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>237</td></tr>
</table>
Yn ystod 2023-2024 (o fis Rhagfyr 2024), roedd 281 o ddysgwyr wedi cymryd rhan yn narpariaeth Lluosi Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae Lluosi yn fenter a</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td>ariennir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatblygu medrau rhifedd.</td></tr>
<tr><td>Nifer y dysgwyr yn y flwyddyn academaidd lawn flaenorol</td><td>
<table>
<tr><th></th><th colspan="3">Dysgwyr unigryw sydd wedi cofrestru</th></tr>
<tr><th>Partner</th><th>2021-22</th><th>2022-23</th><th>2023-24</th></tr>
<tr><td>Addysg Oedolion Cymru</td><td>422</td><td>404</td><td>388</td></tr>
<tr><td>Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful</td><td>166</td><td>43</td><td>68</td></tr>
<tr><td>Y Coleg Merthyr Tudful</td><td>45</td><td>60</td><td>68</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>633</td><td>507</td><td>524</td></tr>
</table>
</td></tr>
<tr><td>Manylion am raglenni’r bartneriaeth, o ran cyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (SSIE a medrau sylfaenol) ac ystod o gyrsiau eraill (hamdden / adfer costau)</td><td>Mae’r tri phrif bartner yn cynnig gwahanol elfennau o’r ddarpariaeth. Mae’r partner arweiniol, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yn cynnig darpariaeth mewn medrau llythrennedd, rhifedd a digidol oedolion a ariennir gan Grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cynnig darpariaeth wedi’i hanelu at ddatblygu medrau rhifedd cyfranogwyr, a ariennir gan fenter Lluosi Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn ystod yr arolygiad, buom hefyd yn arsylwi ychydig o sesiynau o ddarpariaeth sydd wedi’i bwriadu i gefnogi rhieni a datblygu medrau rhianta.<br><br>Mae Addysg Oedolion Cymru yn cynnig ystod o ddarpariaeth mewn lleoliadau cymunedol yn yr ardal, yn cynnwys cyrsiau undydd achrededig, fel hyfforddiant codi a chario neu gyrsiau byr sydd wedi’u cynllunio i gynorthwyo rhieni plant ag</td></tr>
</table>

<table>
<tr>
<td></td>
<td>awtistiaeth neu anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD). Mae Addysg Oedolion Cymru hefyd yn cynnig un cwrs rhan-amser ar gyfer dysgwyr Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) ar lefel mynediad, yn y gymuned.<br><br>Mae Y Coleg Merthyr Tudful yn cynnig darpariaeth amser llawn ar gyfer dysgwyr SSIE ar gampws y coleg ym Merthyr Tudful.</td>
</tr>
<tr>
<td>Ynglŷn â’r dysgwyr ar gyrsiau’r bartneriaeth</td>
<td>Mae mwy o ddysgwyr benywaidd wedi eu cofrestru ym mhob darparwr na gwrywod, ac mae’r gyfran yn amrywio o ryw ddwy o bob tair sy’n fenywod yn narpariaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i ryw dri chwarter sy’n fenywod yn Addysg Oedolion Cymru ac Y Coleg Merthyr Tudful.<br><br>Mae proffil oedran y dysgwyr yn amrywio ym mhob darparwr (sylwer nad yw’r cyfanswm efallai yn hafal i 100% oherwydd talgrynnu):
<table>
<tr><th>Oedran</th><th>CBSMT</th><th>AOC</th><th>YCMT</th></tr>
<tr><td>16-19</td><td>1%</td><td>8%</td><td>3%</td></tr>
<tr><td>20-24</td><td>1%</td><td>9%</td><td>3%</td></tr>
<tr><td>25-39</td><td>15%</td><td>29%</td><td>41%</td></tr>
<tr><td>40-49</td><td>16%</td><td>17%</td><td>36%</td></tr>
<tr><td>59-59</td><td>12%</td><td>21%</td><td>11%</td></tr>
<tr><td>60-64</td><td>6%</td><td>6%</td><td>4%</td></tr>
<tr><td>65 ac yn hŷn</td><td>21%</td><td>10%</td><td>3%</td></tr>
<tr><td>Heb ddatgan</td><td>28%</td><td>0</td><td>0</td></tr>
</table>
</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Dywedodd llai na 5% o ddysgwyr yn unrhyw un o'r darparwyr eu bod yn siaradwyr Cymraeg.<br><br>Yn Y Coleg Merthyr Tudful, sy'n cyflwyno darpariaeth Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) y bartneriaeth, mae bron pob un o'r dysgwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac Addysg Oedolion Cymru, mae llai na 5% o ddysgwyr yn dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. |
| Ynglŷn â'r boblogaeth yn ardal y bartneriaeth | Yn ôl cyfrifiad 2021, mae poblogaeth o 58,800 ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, sef tua 1.9% o gyfanswm poblogaeth Cymru.<br><br>Mae cyfran y boblogaeth economaidd weithgar yn y fwrdeistref yn debyg i gyfartaledd Cymru (75.9% yn erbyn 75.6%), ond cyfran ychydig yn uwch o aelwydydd heb waith (18.9% yn erbyn 16.0%).<br><br>Mae llai o drigolion yn y fwrdeistref wedi cymhwyso i lefelau uwch (Lefel 3 neu 4) na chyfartaledd Cymru (49.0% yn erbyn 64.6%), ac yn uwch na'r gyfran gyfartalog nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau (13.7% yn erbyn 8.6%).<br><br>Mae cyfran y boblogaeth sy'n 65 oed neu'n hŷn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru (19.4% yn erbyn 21.6%). Yn 2024, dywedodd 20% o oedolion ym Merthyr Tudful eu bod yn gallu siarad Cymraeg, yn erbyn y cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol, sef 27.8%.<br><br>Merthyr Tudful yw'r 5ed ardal awdurdod lleol fwyaf difreintiedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (gan ddefnyddio'r 20% o'r ardaloedd cynnyrch |

| | |
|---|---|
| | ehangach haen is mwyaf difreintiedig o MALlC 2019). |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/02/2020 |

## Crynodeb

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, cafwyd cydweithio neu waith partneriaeth effeithiol cyfyngedig iawn rhwng darparwyr yn y bartneriaeth. Yn rhannol o ganlyniad i hyn, mae nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar ddarpariaeth y bartneriaeth yn isel ac nid yw wedi adfer i lefelau cyn y pandemig. Yn ychwanegol, mae diffyg llwybrau dilyniant clir ar gyfer dysgwyr yn narpariaeth y bartneriaeth. Mae’r data cyhoeddedig diweddaraf yn dangos bod dysgwyr yn cwblhau eu gweithgareddau yn llwyddiannus ar gyfraddau islaw’r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae’r bartneriaeth bellach mewn cyfnod o ‘ailosod’ ac ar ddechrau proses i ailsefydlu gweithio mewn partneriaeth, datblygu cynllun strategol newydd ac adolygu ei chynnig darpariaeth.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr ar draws y bartneriaeth yn gwneud cynnydd addas o’u mannau cychwyn, ac mae llawer ohonynt yn galw gwybodaeth flaenorol i gof a’i chymhwyso. Mae llawer o ddysgwyr yn cymhwyso’u medrau yn eu sesiynau yn effeithiol, ac yn adrodd am welliannau yn eu defnydd o’r medrau hyn mewn tasgau bywyd go iawn, fel cyllidebu ar gyfer aelwyd.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos brwdfrydedd a chymhelliant, yn aml wedi’i yrru gan nodau personol neu nodau gyrfa. Mae llawer ohonynt yn mynegi diddordeb cryf mewn parhau â’u taith ddysgu.

Mae gan diwtoriaid berthnasoedd gwaith cryf â dysgwyr. Maent yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn gofalu am eu lles. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cynllunio’u sesiynau’n dda ac yn defnyddio ystod gadarn o strategaethau addysgu. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn darparu adborth geiriol gwerthfawr, er ychydig ohonynt yn unig sy’n defnyddio cynlluniau dysgu unigol yn gwbl effeithiol. Pan mae tiwtoriaid yn defnyddio adborth ysgrifenedig, nid yw bob amser yn nodi camgymeriadau sillafu a gwallau ysgrifennu yn ddigon da i helpu dysgwyr i wella’r medrau hyn, ac nid yw dysgwyr bob amser yn ymwybodol o’u cynnydd na’u cyflawniad o gerrig milltir o fewn cwrs.

Mae tiwtoriaid yn addasadwy ac yn hyblyg, ac yn gweithio gyda dysgwyr i ddiwallu eu hanghenion, yn cynnwys anghenion dysgu ychwanegol fel dyslecsia neu nam ar y golwg. Fodd bynnag, nid yw’r systemau a’r prosesau ar gyfer cofnodi anghenion unigol dysgwyr a’r cymorth cytûn yn effeithiol ac maent yn rhy ddibynnol ar allu tiwtoriaid i gofio gwybodaeth. O ganlyniad, mewn ychydig o achosion, mae tiwtoriaid yn ansicr am yr anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer dysgwyr yn eu grŵp.

Nid yw prosesau’r bartneriaeth ar gyfer helpu dysgwyr i symud ymlaen o un cwrs i’r nesaf wedi’u datblygu’n ddigonol. Mae llawer o ddysgwyr yn mynegi parodrwydd i ddal ati i

ddysgu ar ôl i'w cwrs ddod i ben. Fodd bynnag, ychydig iawn ohonynt sy'n ymwybodol o'r hyn sydd ar gael. Ar hyn o bryd, nid oes ymagwedd partneriaeth gyffredinol at hyrwyddo ehangder y ddarpariaeth yn yr ardal, nac unrhyw ffynhonnell unigol lle gall dysgwyr fynd at wybodaeth am yr holl gyrsiau sydd ar gael.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pump o argymhellion i helpu'r gwasanaeth i barhau i wella, sef:

A1 Atgyfnerthu ymrwymiad y bartneriaeth i gydweithio a datblygu cynllun strategol clir i ffurfio dyfodol y bartneriaeth a phrosesau i fesur cynnydd yn erbyn y cynllun

A2 Adolygu cynnig darpariaeth y bartneriaeth i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion dysgwyr a darpar ddysgwyr, ac yn cynnig llwybrau clir ar gyfer dilyniant

A3 Sicrhau bod darpar ddysgwyr a dysgwyr presennol yn gallu mynd yn hawdd at drosolwg o gynnig cyrsiau a llwybrau dilyniant y bartneriaeth lawn

A4 Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n cofrestru ac yn elwa ar ddarpariaeth graidd dysgu oedolion yn y gymuned y bartneriaeth

A5 Rhoi systemau a phrosesau effeithiol ar waith ar draws y bartneriaeth ar gyfer cofnodi a chyfleu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a gofynion cymorth unigol dysgwyr, ac ar gyfer sicrhau bod y rhain yn cael eu cefnogi

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae PAEF o'r farn fod agwedd ar addysg a hyfforddiant y darparwr nad yw'n ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol y rhai sy'n derbyn addysg. Bydd y bartneriaeth yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y bartneriaeth ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar draws y bartneriaeth yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn, ac mae llawer ohonynt yn cymhwyso a galw gwybodaeth flaenorol i gof

yn effeithiol. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn dosbarthiadau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) lefel uwch yn defnyddio berfau moddol a gyflwynwyd mewn gwersi blaenorol ac yn cynhyrchu darnau estynedig o ysgrifennu cymhleth, gan ddangos eu bod yn cadw ac yn cymhwyso medrau a gwybodaeth mewn cyd-destunau newydd.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymhwyso'u medrau yn eu sesiynau yn effeithiol, er enghraifft mewn rhifedd, lle maent yn cyfrifo perimedrau yn fedrus. Mae dysgwyr yn y sesiynau hyn yn adrodd am welliannau wrth iddynt ddefnyddio rhifau, ac yn mynegi mwynhad yn eu gallu i gymhwyso mathemateg i dasgau bywyd go iawn, er enghraifft cyllidebu ar gyfer aelwyd.

Mewn dosbarthiadau SSIE, mae bron pob un o'r dysgwyr yn defnyddio strwythurau'r iaith dargedig yn gywir. Mae'r dysgwyr hyn yn dangos datblygiad iaith cadarn dros gyfnod, gan ddatblygu o eirfa sylfaenol i strwythurau mwy cymhleth mewn siarad ac ysgrifennu.

Mae llawer o ddysgwyr yn dangos amgyffrediad cryf o derminoleg a chysyniadau sy'n benodol i bwnc. Er enghraifft, mae dysgwyr ar gwrs ymwybyddiaeth o anhwylder gorfywiogrwydd a diffyg canolbwyntio (ADHD) yn disgrifio nodweddion plant ag ADHD â hyder, gan ddangos dealltwriaeth gadarn o'r pwnc.

Ar draws cyrsiau, mae llawer o ddysgwyr yn dangos arferion dysgu myfyriol ac annibynnol. Er enghraifft, mae dysgwyr SSIE ar raglen lefel mynediad yn defnyddio offer cyfieithu digidol i'w cynorthwyo i gaffael geirfa newydd.

Ar raglenni rhianta, caiff dysgwyr gyfleoedd i ymarfer ymadroddion Cymraeg, sy'n eu helpu i gefnogi eu plant a'u hwyrion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, ar draws y bartneriaeth gyfan, mae defnydd tiwtoriaid o'r Gymraeg a darparu enghreifftiau ohoni yn gyfyngedig iawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos brwdfrydedd a chymhelliant, sy'n cael ei yrru yn aml gan nodau personol neu nodau gyrfa. Mae llawer ohonynt yn mynegi diddordeb cryf mewn parhau â'u taith ddysgu. Mae'r cyfranogiad hwn yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned, gan greu amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos blaengaredd trwy ofyn cwestiynau, gofyn am eglurhad, a manteisio ar gymorth gan diwtoriaid, yn ôl yr angen. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o sesiynau, nid yw tiwtoriaid yn cynllunio digon o gyfleoedd i ddysgwyr gydweithio, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd dysgwyr i ddysgu gyda chyfoedion a phrofiadau dysgu cymdeithasol.

**Ciplun ar: raglenni ymwybyddiaeth o ADHD**

Mae dysgwyr ar raglenni ymwybyddiaeth o ADHD yn disgrifio'r effaith hynod gadarnhaol y mae'r dysgu a'r cyfleoedd cymdeithasol wedi'i chael ar eu bywydau personol a phroffesiynol.

Mae rhieni'n disgrifio'r modd yr oeddent yn teimlo'n ynysig cyn ymuno â'r sesiynau hyn, gan ychwanegu eu bod wedi teimlo'n anobeithiol ac yn cael eu camddeall. Maent yn mynd ymlaen i ddisgrifio'r modd y mae gallu siarad a rhannu â phobl eraill sy'n cael profiadau tebyg nid yn unig wedi eu galluogi i gefnogi eu plant yn well, ond hefyd wedi cael effaith ddwys ar eu lles personol eu hunain.

Mae dysgwyr sy'n ymuno â'r rhaglenni hyn am resymau proffesiynol yn amlinellu'r modd y mae eu dysgu wedi eu galluogi i wella'u harfer eu hunain a chodi ymwybyddiaeth am ADHD ymhlith cydweithwyr.

Mae tiwtoriaid yn cynllunio cyrsiau'n effeithiol i ddarparu cynnwys, gwybodaeth a medrau ar gyfer dysgwyr sy'n berthnasol i lefel eu dysgu. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i sefyllfaoedd dysgwyr sy'n oedolion. Maent yn addasu sesiynau'n briodol, er enghraifft trwy ddarparu mynediad ar-lein ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu mynychu sesiynau wyneb yn wyneb neu'n sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael mynediad at unrhyw waith y maent efallai'n ei golli oherwydd ymrwymiadau eraill sy'n gwrthdaro â dosbarthiadau o bryd i'w gilydd.

Mae tiwtoriaid yn gweithio'n effeithiol i ddatblygu perthnasoedd gwaith da â dysgwyr. Maent yn amlinellu disgwyliadau clir ar gyfer ymddygiad dysgwyr, boed hynny wyneb yn wyneb, yn hybrid, neu mewn sesiynau sy'n gyfan gwbl ar-lein. Pan fydd y sesiwn yn caniatáu, mae dysgwyr yn cydweithio ac yn parchu ei gilydd. Er enghraifft, mae dysgwyr SSIE yn cefnogi ei gilydd â chywiriadau ac awgrymiadau am welliannau gan gyfoedion. Yn ystod trafodaethau ar destunau sensitif, fel colli pwysau, mae dysgwyr yn mynegi eu hawgrymiadau a'u barn â sensitifrwydd, gan barchu teimladau eu cyfoedion.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio sesiynau'n dda i ddiwallu anghenion dysgu dysgwyr. Yn gyffredinol, mae cyflymdra da i sesiynau, ac maent yn cynnal canolbwyntio, cymhelliant a chyfranogiad dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio ystod ddefnyddiol o strategaethau addysgu ac yn defnyddio technegau holi yn effeithiol i ymestyn gwybodaeth dysgwyr, i'w helpu i ddatblygu medrau datrys problemau a sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn cael eu cynnwys. Yn y sesiynau mwyaf effeithiol, mae tiwtoriaid yn cefnogi datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgwyr, hyd yn oed pan nad y rhain yw prif ffocws y cwrs.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn defnyddio adborth llafar a chanmoliaeth yn dda i gymell dysgwyr. Fodd bynnag, ychydig ohonynt yn unig sy'n defnyddio cynlluniau dysgu yn effeithiol i helpu dysgwyr i gynllunio'u dysgu a chofnodi eu cynnydd. Pan ddefnyddir adborth ysgrifenedig, nid yw bob amser yn nodi camgymeriadau a gwallau sillafu yn ddigon da i helpu dysgwyr i wybod sut i wella'r medrau hyn. O ganlyniad, nid yw dysgwyr bob amser yn ymwybodol o'u cynnydd na'u cerrig milltir penodol o fewn cwrs.

At ei gilydd, ar gyfer y ddwy flynedd olaf o ddata cyhoeddedig ers y pandemig (2022-2023 a 2021-2022), cwblhaodd dysgwyr yn y bartneriaeth weithgareddau dysgu achrededig yn llwyddiannus ar gyfraddau islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol.

**Lles, gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae pob darparwr o fewn y bartneriaeth yn hysbysebu ei gyrsiau ei hun, yn bennaf trwy sianelau ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy bosteri a thaflenni mewn lleoliadau cymunedol. Fodd bynnag, nid oes ymagwedd partneriaeth gyffredinol ar hyn o bryd at hyrwyddo ehangder y ddarpariaeth yn yr ardal, nac unrhyw ffynhonnell unigol lle gall dysgwyr neu ddarpar ddysgwyr gael mynediad at wybodaeth am yr holl gyrsiau sydd ar gael.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweld bod y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad a gânt cyn dechrau ar eu cwrs, ac yn ystod eu cyfnod ymsefydlu, yn gywir a buddiol. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn derbyn llawlyfr defnyddiol i ddysgwyr, sy'n amlinellu'r wybodaeth allweddol am y cwrs, y disgwyliadau ohonynt a beth gallant ei ddisgwyl gan eu darparwr.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn siarad yn gadarnhaol am yr effaith a gaiff eu cwrs ar eu bywydau bob dydd. Mae dysgwyr SSIE yn rhannu gwerth annibyniaeth gynyddol a gallu darllen gohebiaeth ysgol. Mae dysgwyr ar gwrs rhagflas Cymraeg yn gwerthfawrogi'r rhyngweithio cymdeithasol sydd, yn eu barn nhw, yn hwyluso'r hyn a allai fod yn gyfnodau hir o ynysu, fel arall. Mae dysgwyr ar gwrs rhifedd dysgu teuluol yn trafod yr effaith y mae dysgu ar y cyd â'u plentyn wedi'i chael ar newid eu bywyd, gan helpu tynnu'r straen allan o fynychu'r ysgol ar gyfer eu plant.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn creu amgylcheddau dysgu diogel, ac yn annog rhannu a thrafod addas ymhlith dysgwyr, sy'n sefydlu diwylliant o barch a sicrwydd ar y ddwy ochr. Mae dysgwyr ar raglen rhianta yn profi ymdeimlad cryf o gymorth emosiynol, gan ddod o hyd i ofod diogel i drafod heriau a llwyddiannau personol, sy'n eu helpu i deimlo'u bod wedi'u cysylltu, ac yn meithrin eu twf personol yn ei dro.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn credu bod y bartneriaeth yn gwrando ar eu barn ac yn gwneud addasiadau yn seiliedig ar eu hadborth. Er enghraifft, mae dysgwr medrau sylfaenol yn esbonio'r modd y mae'r darparwr wedi addasu amseroedd cyrsiau i alluogi dysgwyr i fynychu dosbarth yn unol â'i batrymau sifft.

Mae pob darparwr o fewn y bartneriaeth yn casglu barn dysgwyr yn bennaf trwy werthusiadau ar ôl cyrsiau y mae cyfraddau ymateb yn rhesymol ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yw partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd ar hyn o bryd i ddadansoddi adborth llais y dysgwr ar draws eu darpariaeth gyfan i nodi tueddiadau neu gyfleoedd ar gyfer meysydd ymyrraeth ar y cyd.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn gofalu am eu lles. Maent yn addasu eu sesiynau a'u harddulliau cyflwyno i weddu i anghenion y grŵp. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cyfathrebu'n dda â dysgwyr yn ystod eu dosbarthiadau ac yn cadw mewn cysylltiad yn briodol y tu allan i sesiynau i helpu cynnal cymhelliant ac ymgysylltiad dysgwyr. Ar adegau pan nad yw dysgwyr yn mynychu sesiynau, mae tiwtoriaid yn cynnal cysylltiad â nhw, ac yn anfon gwaith atynt i'w gwblhau yn eu hamser eu hunain, a fydd yn eu cadw ar y llwybr cywir. Mae pob darparwr yn y bartneriaeth yn ymgysylltu ag ystod o bartneriaid allanol lle gall dysgwyr fanteisio ar gymorth â lles, fel sesiynau cwnsela.

Mae pob partner yn defnyddio'r broses cofrestru ac ymsefydlu dysgwyr i nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff cymorth ADY ei gynnig gan diwtoriaid cyrsiau, sy'n gwneud newidiadau ac addasiadau rhesymol ar gyfer anghenion dysgwyr, fel dyslecsia, nam ar y golwg neu broblemau symudedd. Fodd bynnag, nid yw'r systemau a'r prosesau ar gyfer cofnodi anghenion unigol dysgwyr a'r cymorth cytûn yn effeithiol, ac maent yn rhy ddibynnol ar allu tiwtoriaid i gofio gwybodaeth. O ganlyniad, mewn ychydig o achosion, mae tiwtoriaid yn ansicr am yr anghenion dysgu ychwanegol a nodwyd ar gyfer dysgwyr yn eu grŵp neu sut gallent fod yn eu cefnogi.

Nid yw prosesau'r darparwyr ar gyfer helpu dysgwyr i symud ymlaen o un cwrs i'r nesaf wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae llawer o ddysgwyr yn mynegi parodrwydd i ymgysylltu â dysgu ar ôl i'w cwrs orffen. Fodd bynnag, ychydig iawn ohonynt sy'n ddigon ymwybodol o'r hyn sydd ar gael.

Mae bron pob un o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol rheolaidd priodol ar-lein ar bynciau fel diogelu (yn cynnwys Atal) ac mae gan bob darparwr arweinydd diogelu dynodedig (ADD). Mewn un partner, adeg yr arolygiad, roedd yr ADD yn gymharol newydd i'w swydd, ac angen ymgymryd o hyd â hyfforddiant diogelu ar lefel briodol o uchel.

Mae darparwyr o fewn y bartneriaeth yn sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cynnal ym mhob lleoliad lle cynhelir cyrsiau, ac mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am brotocolau iechyd a diogelwch a gofynion penodol dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r tiwtoriaid yn ymwybodol o sut i fynd at yr asesiadau risg na'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ynddynt.

At ei gilydd, mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

### Arwain a gwella

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, cafwyd cydweithio neu waith partneriaeth effeithiol cyfyngedig iawn rhwng y prif ddarparwyr yn y bartneriaeth. Yn rhannol o ganlyniad i hyn,

mae nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar ddarpariaeth y bartneriaeth yn isel, ac nid yw wedi gwella i lefelau cyn y pandemig. Hefyd, mae diffyg llwybrau dilyniant clir i ddysgwyr yn narpariaeth y bartneriaeth.

Mae gan y bartneriaeth arfarniad realistig a diduedd o'i sefyllfa bresennol, ac mae bellach mewn cyfnod 'ailosod'. Yn ddiweddar iawn, mae arweinwyr yn y tri phrif ddarparwr, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Addysg Oedolion Cymru ac Y Coleg Merthyr Tudful, wedi llofnodi cytundeb partneriaeth newydd. Mae hyn yn amlinellu'r egwyddorion lefel uchel ar gyfer gwaith partneriaeth adnewyddedig a chyfrifoldeb ar y cyd am waith y bartneriaeth. Er enghraifft, bydd y Cyngor yn ymgymryd ag arweinyddiaeth strategol gyffredinol, bydd Addysg Oedolion Cymru yn arwain ar hunanwerthuso a gwella ansawdd, a bydd Y Coleg yn arwain ar gynllunio'r ddarpariaeth a datblygu'r gweithlu.

Mae cytundeb partneriaeth yn dangos yr ymrwymiad gan arweinwyr yn y prif ddarparwyr i weithio mewn partneriaeth ac i ddyfodol y bartneriaeth. Mae adroddiad diweddar i bwyllgor craffu'r Cyngor yn amlinellu'n ddefnyddiol gyflwr presennol y bartneriaeth a gweledigaeth lefel uchel o ran ble hoffai'r bartneriaeth fod. Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r gwaith i roi'r weledigaeth hon ar waith ac nid yw'r bartneriaeth wedi creu cynllun strategol, targedau lefel uchel na mesurau deilliannau eto i arwain datblygiad y bartneriaeth. Ar hyn o bryd, nid yw'r camau manwl y mae angen i'r bartneriaeth eu cymryd i symud ymlaen a'i ailosod yn glir.

O ran cynllunio'i darpariaeth, bwriad y bartneriaeth yw y dylai darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned weithio i gefnogi nod strategol ehangach 'Merthyr Ddyheadol' – gwella medrau, rhagolygon cyflogaeth a lles plant a theuluoedd.

Mae pecyn cyffredinol y ddarpariaeth ar draws y tri darparwr yn cynnig amrywiaeth addas o gyrsiau. Fodd bynnag, mae diffyg cynllunio darpariaeth gydlynus wedi arwain at lwybrau dilyniant aneglur ar gyfer dysgwyr. Yn aml, nid yw'r dysgwyr eu hunain yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael iddynt na sut gallent ddefnyddio'r cyfleoedd hyn i ddatblygu eu dyheadau, eu rhagolygon cyflogaeth neu'u datblygiad personol.

Mae'r tri phrif bartner yn cynnig gwahanol elfennau o ddarpariaeth. Mae'r partner arweiniol yn cynnig darpariaeth mewn medrau llythrennedd, rhifedd a digidol oedolion a ariennir gan Grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned Llywodraeth Cymru. Mae niferoedd isel o ddysgwyr yn y ddarpariaeth hon, ac er bod niferoedd y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni wedi dangos cynnydd calonogol yn ystod y flwyddyn academaidd hon, nid yw cofrestriadau wedi gwella i lefelau cyn y pandemig. Yn ystod yr arolygiad, roedd meintiau dosbarthiadau ar gyfer y ddarpariaeth a ariennir gan y Grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn fach, sef tua thri dysgwr, ar gyfartaledd.

Mae'r darparwr arweiniol wedi gweithio'n greadigol i ddefnyddio cyllid o fenter Lluosi Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatblygu rhaglenni newydd, fel dysgu teuluol neu rifedd yn Gymraeg; ac ymestyn gweithgareddau cymunedol presennol, fel sesiynau cadw'n heini; i ennyn diddordeb dysgwyr a datblygu medrau rhifedd mewn cyd-destunau bob dydd. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn i brofi rhifedd mewn ffordd newydd a chefnogi dysgu eu plant yn yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae arweinwyr wrthi'n cynllunio sut i gynnal darpariaeth a ddechreuwyd gan ddefnyddio cyllid o Lluosi pan fydd y cyllid dynodedig yn dod i ben yn 2025.

Ar hyn o bryd, mae pob darparwr yn marchnata a hyrwyddo'i ddarpariaeth yn annibynnol, ac nid oes ffordd syml i drigolion ddod o hyd i ystod lawn y ddarpariaeth sydd ar gael i oedolion o fewn y fwrdeistref. Mae'r darparwr arweiniol wrthi'n diweddaru ac yn ailfrandio'i ddeunyddiau marchnata a hyrwyddo ar hyn o bryd, yn cynnwys cynlluniau ar gyfer gwefan newydd. Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith hyn ar gofrestriadau dysgwyr.

**Ciplun ar: Rifedd Lluosi yn Gymraeg**

Dywedodd dysgwyr yr hoffent ddilyn cwrs a oedd yn eu helpu i ddysgu a defnyddio termau Cymraeg syml yn gysylltiedig â rhifedd – i ddatblygu eu medrau Cymraeg personol a hefyd i'w helpu i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sgyrsiau a thasgau rhif gyda'u plant.

Mewn cydweithrediad â Dysgu Cymraeg Morgannwg, cynhaliodd tîm Lluosi y bartneriaeth gwrs deg wythnos mewn lleoliad cymunedol. Dyma oedd y cynnwys:

- Rhifau o 1 – 100, chwarae bingo, disgrifio rhifau bob dydd (rhifau bysys, rhifau drysau, rhifau ffôn, cardiau busnes), dweud faint o'r gloch yw hi
- Hoffterau a chasbethau - sawl llwyaid o siwgr mewn te / coffi, sawl bisged gyda phaned, gemau bwrdd, dis, cardiau

Mae dysgu'n digwydd mewn lleoliadau cymunedol addas a chyfleus, fel clybiau cymdeithasol, ysgolion a chanolfannau dysgu. Mae'r lleoliadau hyn yn addas at eu diben. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys cydbwysedd priodol rhwng cyfleoedd dysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein neu hybrid sy'n cael eu defnyddio'n hyblyg gan diwtoriaid a rheolwyr i ddiwallu anghenion dysgwyr. Heblaw am y ddarpariaeth rhifedd yn Gymraeg a gynigir trwy Lluosi, nid yw'r bartneriaeth yn cynnig unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Nid yw prosesau'r bartneriaeth ar gyfer hunanwerthuso wedi'u datblygu'n ddigonol. Er gwaethaf hyn, mae adroddiad hunanwerthuso'r bartneriaeth yn adlewyrchu sefyllfa ailosod gyffredinol y bartneriaeth yn gywir, er nad yw wedi nodi ychydig o feysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad arolygu hwn, er enghraifft effeithiolrwydd cyfyngedig cynlluniau dysgu unigol. Mae prosesau gwella ansawdd presennol wedi cael effaith gyfyngedig ar feysydd i'w gwella, er enghraifft y duedd o ostyngiad yng nghofrestriadau a

chyfraddau llwyddiant dysgwyr, neu o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r adroddiad arolygu blaenorol.

Mae rheolwyr gweithredol ym mhob darparwr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac mae ganddynt drefniadau addas ar gyfer rheoli eu staff. Mae gan ddarparwyr unigol brosesau effeithiol ar gyfer nodi anghenion dysgu proffesiynol eu staff, yn cynnwys cyfarfodydd tîm, arfarniadau, arsylwadau, a theithiau dysgu. Mae enghreifftiau o ddysgu proffesiynol defnyddiol yn cynnwys sesiynau ar ddiogelu, Atal ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth. Ar hyn o bryd, mae'r cyfleoedd i staff gydweithio a dysgu oddi wrth ei gilydd ar draws y bartneriaeth yn gyfyngedig.

## Gwybodaeth ychwanegol

### Trefniadau diogelu

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu pobl ifanc ac oedolion bregus yn peri pryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i ddysgwyr a’r holiadur i staff
- yn adolygu data ar berfformiad cyhoeddedig y bartneriaeth

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â chadeirydd y bartneriaeth, swyddogion yr awdurdodau lleol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol, i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, a gwrando ar eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn arsylwi sampl eang o sesiynau
- yn arsylwi dysgwyr y tu allan i sesiynau, ac yn siarad â nhw
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau’r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddysgwyr…'* neu *'ychydig iawn o ddysgwyr…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/02/2025